

Ffugenw: Un ymhlith mwy
Cerdd gaeth neu rydd heb fod dros 100 o linellau ar y testun: 'Diolch'

Rhusiais rhagddo

Mae'n anodd i'r bardd sy'n teimlo dim
wrth geisio agor y ddôr
at y stôr sy' dan stâr.

Ond heno,
gwêl Ddedalus ei ddyddiau'n agor o'i flaen
a'i feiro'n synhwyro cyfeiriad y dweud
wrth ei gyrchu'n ddi-gymell
i gyfrinle'r co'.

Ac mae'n dechrau sgriptio -
yn y gobaith y daw
rhywun arall
i gyfarwyddo'r ddrama *hon*
ac yntau'n ddiymadferth yn ei olygfa'i hun.

A chyda'r drysau'n y cefn ar gau,
mae'n mentro amau
y bydd heno'n noson dda.

Gwaharddedig ffrwyth

Cyn parhau, rhaid pwylllo
a cheisio ail-weindio
rîl hen eiriau a gasglodd lwch amser
ac a gymylodd lens ei weld.

Mae'n anodd symud ymlaen
am nad oes ganddo'r iaith,
i fynegi hoel y briwiau.
Am nad oes ganddo, o hyd,
eiriau
am rai pethau yn y Gymraeg.
Am fod traddodiad (ie, hwnnw)
yn mynnu glynu'n glep
ar wep y rhai sy'n ei ganlyn -
yn hual am bob haul.

A chyhyd ag y bydd anadl ynddo,
gall geisio bloeddio'n blaen.
Ond does neb yn ei Gymru o
am wrando ar baldaruo
un llais yn dragywydd.

Llwyr ddeffro

Ef neu Hi sy'n berchen ar ei fyd,
ac ni bu gwerth erioed
mewn chwalu'r tŷ bach twt.

Ond i hwn - yr hwn a'r hon
sy'n dŷ lond ei bryderon.
Ac yn narogan y dyn (neu'r ddynes) t(d)ywydd,
mae'n anodd credu
fod gosteg i bob curlaw.

Am nad yw'r cwiyr yn adnabod
y genedl ddeuaidd hon
a'i hiaith goeth ei hymylon.

Am nad yw'r Gymraeg
yn siarad iaith Ru Paul.

Ac am y daeth yr awr
i ddiosg y Gymraeg
ar allor pwy ydyw.

Y caru anghyffwrdd

"Try the Frisky Wales website for online tests – it'll save you coming in here."

Ac yntau, ddyddiau'n ddiweddarach
yn stwffio swab i fannau anghysbell
am feiddio bod yn ffrisgi.
Am fod yn euog o dderbyn cyffyrddiad
fel deuddeg a mwy Nilsen
fu hefyd ar drywydd arall
yn y lle anghywir.

"Your GP would like to see you. Phone in the morning for an appointment."

Dyna lle'r oedd o wedyn –
yn eiddgar glywed ei le yng nghefn y ciw.
Yn un o fil a ffoniodd cyn i'r wawr godi.
Cyn i'r cymylau arllwys sen y gwir.
Am iddo, y tro hwn,
wneud y dewis anghywir
ar drywydd y lle arall.

Pallu'n sydyn

Ac roedd o'n lle braf – am ennyd.
Cael cilio oddi wrth ei fyd
cyn i Dafwys ei bryderon
arllwys holl win llwyddiant
yn rhemp ar draws y ford.

Cyn i'r gyfrinach nychu
a'r celwydd grebachu.
Cyn i'r gwae droi'n gyhoeddus
a'r baedd droi'n bwyntio bys.
Cyn i'r pledio gychwyn
ac i dywyllwch Parc Biwt
droi'n ddudew oesol.
Cyn i'r datgelu droi'n danchwa...

...nad oedd.

Dim ond diolch yn dalpie sy'
am fod pob cam o'r fan *hon*
yn haws o dipyn yr awron.
Am nad oes rhaid iddo bellach
ddeisyfu llwybr amgenach.
Am y gall yr hwn a'r *hon*
adlewyrchu lens ei weld.

Bydd rhaid aros yn hwy am wir luosog
ond o'i gael,
bydd yn odidog.
Ac ni bydd y drws
at y stôr dan stâr
ar gau
byth mwy.

Ciarán Eynon